# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Tŷ Mawr Ltd**

**Cartref Nyrsio Tŷ Mawr**
**Caehopcyn Aber-Craf**
**Abertawe**
**SA9 1TP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

20/02/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Tŷ Mawr Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Tŷ Mawr Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 54 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 7.2.2023 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yng nghartref Tŷ Mawr yn cael gofal o safon dda. Maent yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a gânt gan y gweithwyr gofal a'r nyrsys sy'n barchus ac yn ofalgar. Mae'r staff yn adnabod y bobl yn dda, ac yn rhyngweithio mewn ffordd garedig a gofalgar. Mae'r cynlluniau personol yn nodi sut mae'r bobl yn hoffi i'w hanghenion gael eu diwallu, a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r bobl yn gallu dewis cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Maent hefyd yn fodlon iawn ar y prydau bwyd sy'n cael eu cynnig yn y cartref.

Nid yw pob aelod o'r staff yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd fel sy'n ofynnol ac mae hefyd angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant gofynnol. Mae angen i'r gwasanaeth sicrhau bod polisïau yn cael eu diweddaru a'u bod yn berthnasol. Mae angen gwneud gwelliannau er mwyn cynnal a chadw'r décor ac er mwyn gwella'r amgylchedd, yn enwedig i'r bobl sy'n byw gyda dementia. Byddai hefyd yn fuddiol gallu cynnig dewis o ystafelloedd ymolchi ac opsiynau cawod i'r bobl yn y cartref. Mae'n rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi gwiriadau sicrhau ansawdd mwy cadarn ar waith i sicrhau bod y bobl yn cael gofal a chymorth da yn unol â'r datganiad o ddiben.

## Llesiant

Mae'r ddogfennaeth gofal yn y gwasanaeth yn llawn gwybodaeth ac yn gyfredol. Mae'r cynlluniau personol yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn fanwl ac yn glir i'w dilyn. Mae gan y gweithwyr gofal wybodaeth dda am y bobl ac felly maent yn gallu sylwi ar unrhyw newidiadau yn gyflym ac ymateb iddynt yn brydlon. Mae'r bobl yn aros mor iach â phosibl oherwydd atgyfeiriadau amserol at weithwyr gofal iechyd proffesiynol a threfniadau ar gyfer rhoi meddyginiaeth yn effeithiol. Mae prydau bwyd iach a maethlon yn ystyried anghenion deietegol y bobl. Dywedodd y bobl sy'n byw yn y cartref a'u perthnasau wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gofal a ddarperir yng nghartref Tŷ Mawr.

Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt, a'u bod yn gallu mynegi eu safbwyntiau.
Gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio cadarnhaol a charedig rhwng y bobl a'u staff gofal. Mae'r bobl yn hapus ac yn fodlon eu byd yn y gwasanaeth. Dywedodd un unigolyn wrthym, *"I'm very happy here"*.

Mae mesurau ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r gweithwyr gofal yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran diogelu ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cael eu hyfforddi i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r gweithwyr gofal yn cael eu recriwtio yn unol â'r rheoliadau ac yn destun gwiriadau cyn cyflogi i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y rôl. Mae'r mesurau rheoli heintiau, gan gynnwys defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE), yn lleihau'r risg o groeshalogi. Caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel a'i rhoi fel y'i rhagnodir. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn hyrwyddo arferion diogel. Fodd bynnag, mae angen adolygu rhai ohonynt i sicrhau eu bod yn cynnwys y ddeddfwriaeth a'r canllawiau diweddaraf. Mae angen gwneud rhai gwelliannau i'r trefniadau hyfforddi, goruchwylio a llywodraethu er mwyn sicrhau bod y staff yn parhau i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol.

Darperir amrywiaeth dda o weithgareddau gan y cartref. Mae cydgysylltwyr gweithgareddau yn paratoi amserlen wythnosol ar ôl siarad â'r bobl am yr hyn yr hoffent ei wneud. Gwelsom bobl yn mwynhau cwis ar ddiwrnod ein harolygiad. Roedd pobl eraill yn mwynhau'r profiad o gael trin eu gwallt gan berson trin gwallt a oedd yn ymweld â'r cartref. Mae'r bobl hefyd yn mwynhau gweithgareddau un i un, cael diddanwyr yn y cartref a phartïon ar gyfer achlysuron arbennig.

Mae angen gwneud gwelliannau i'r amgylchedd er mwyn sicrhau bod gan y bobl ddewis o ran sut yr hoffent ymolchi. Nid ymdriniwyd â rhai ardaloedd y nodwyd yn flaenorol bod angen eu hadnewyddu. Mae amrywiaeth o ardaloedd cymunedol ar gael i'r bobl, yn ogystal â phreifatrwydd eu hystafelloedd gwely eu hunain. Mae'r gwasanaeth yn lân ac mae gweithdrefnau rheoli heintiau ar waith i leihau'r risg y ceir brigiadau o glefydau heintus.

## Gofal a Chymorth

Mae tîm ymroddedig o weithwyr gofal a nyrsys yn darparu gofal a chymorth. Mae trosiant staff yn isel yn y gwasanaeth, sy'n darparu parhad gofal da. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol rhwng y gweithwyr gofal a'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Gwelsom fod y bobl yn cael eu trin mewn ffordd gynnes a charedig. Caiff y bobl eu cefnogi i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Mae rhaglen o weithgareddau amrywiol a rheolaidd ar waith. Dywedodd y bobl wrthym "*The staff are great*" ac "*It's lovely here*". Dywedodd un perthynas wrthym "*There's plenty going on*" a "*My mum is happy, safe and well looked after*".

Mae'r cynlluniau personol yn nodi anghenion gofal a chymorth y bobl, ac yn amlygu unrhyw risgiau i iechyd a llesiant y person. Gwnaethom archwilio nifer o gynlluniau personol electronig a chanfod eu bod yn fanwl ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae hyn yn golygu bod y wybodaeth a gofnodir ynddynt yn benodol i anghenion gofal a chymorth y person. Mae'r asesiadau risg yn amlinellu gwendidau'r bobl ac yn darparu gwybodaeth ar sut i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r cofnodion dyddiol yn gyfredol a chaiff adnoddau amrywiol megis siartiau bwyd a hylif eu defnyddio i fonitro iechyd cyffredinol y bobl lle bo angen.

Caiff y bobl eu cefnogi i gadw mor iach â phosibl. Gwelsom fod y cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth wedi'i dogfennu sy'n awgrymu bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ychwanegol ar gael yn hwylus i'r bobl. Caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel a'i rhoi yn unol ag argymhellion y rhagnodwr. Gwnaethom archwilio'r cofnodion rhoi meddyginiaeth a chanfod eu bod wedi cael eu cwblhau'n gywir ac nad oedd unrhyw fylchau. Mae'r staff yn cwblhau'r gwiriadau perthnasol o dymereddau storio bob dydd. Caiff meddyginiaeth a reolir ei storio a'i chofnodi'n briodol hefyd. Mae'r prydau bwyd yn cael eu paratoi'n ffres, a gwelsom fod y prif brydau yn edrych yn flasus ac yn cael eu gweini'n effeithlon. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau'r prydau bwyd, a'u bod bob amser yn gallu cael rhywbeth gwahanol i'w fwyta os byddant am wneud hynny. Dywedodd un unigolyn wrthym, "*The food is very good, always a choice, plenty of food*".

Ar y cyfan, mae lefelau staffio cyson a phriodol ar waith i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Ceir lefelau staffio digonol ar gyfer pob shifft, ac mae rhai o'r staff wedi bod yn gweithio yn y gwasanaeth ers cryn dipyn o amser. Mae'r gweithwyr gofal yn ymateb yn gyflym i unrhyw gais am help. Mae'r staff yn cefnogi ei gilydd ac yn canmol y cymorth y maent yn ei gael gan y tîm rheoli. Wrth siarad am y rheolwr, dywedodd un perthynas "*she is great*".

## Yr Amgylchedd

Caiff cyfrinachedd ei gynnal ym mhob rhan o'r cartref. Mae'r bobl yn ddiogel rhag ymwelwyr heb awdurdod yn dod i mewn i'r adeilad. Mae'n rhaid i'r holl ymwelwyr ganu cloch y drws ffrynt er mwyn dod i mewn a gofynnir iddynt gofnodi eu hymweliad yn y llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd a gadael. Caiff cofnodion gofal eu storio'n ddiogel a dim ond staff awdurdodedig all gael gafael arnynt. Caiff cofnodion personél eu storio'n ddiogel.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd cartrefol ond mae angen gwneud gwelliannau er mwyn iddynt gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r adeilad ar ddau lawr ac mae'r holl ardaloedd cymunedol, y swyddfeydd, y gegin, yr ystafell feddyginiaeth a'r ystafell golchi dillad ar y llawr gwaelod. Mae grisiau a lifft er mwyn cyrraedd y llawr cyntaf, a dyma lle mae'r ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd ymolchi wedi'u lleoli. Mae gan rai o'r ystafelloedd gwely eu toiledau eu hunain. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli ag eitemau fel lluniau ac ornamentau a ddewiswyd gan y bobl. Ar hyn o bryd, nid yw'r ddwy ystafell ymolchi yn hygyrch i'r rhai hynny â phroblemau symudedd, felly ni chaiff y bobl ddewis rhwng cael bath neu gawod. Mae ôl traul yn rhai rhannau o'r cartref ac mae angen eu hailaddurno er mwyn gwella golwg yr amgylchedd. Dylid hefyd ystyried defnyddio décor sy'n fwy addas i bobl â dementia er mwyn cefnogi eu llesiant a'u helpu i symud o gwmpas y cartref yn hwylus. Mae'r rhain yn feysydd i'w gwella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.  Mae'r gegin yn lân ac yn drefnus ac wedi cael sgôr o 5 gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sy'n dangos lefelau uchel o hylendid.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gall y bobl gael gwybodaeth er mwyn eu helpu i ddeall y gofal, y cymorth a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae'r datganiad o ddiben a'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn disgrifio'r gwasanaeth y mae'r darparwr yn anelu at ei ddarparu. Mae hyn yn cynnwys llety'r gwasanaeth, y broses atgyfeirio a derbyn, y math o ofal a chymorth sydd ar gael a sut mae'n darparu gwasanaeth Cymraeg. Mae'r ddau ar gael yn Gymraeg.

Nid oes gan y darparwr drefniadau llywodraethu a goruchwylio effeithiol ar waith ar gyfer y gwasanaeth. Mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n unol â'r datganiad o ddiben. Nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y rheolwr newydd wedi cael cyfnod sefydlu addas na chymorth fel rhan o gyfnod prawf. Mae angen gwneud gwelliannau er mwyn helpu'r staff i gael hyfforddiant rheolaidd a chyfredol ac i sicrhau bod y staff yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd a ffurfiol. Rydym wedi darllen dau adroddiad sicrhau ansawdd diwethaf yr Unigolyn Cyfrifol. Nid ydynt yn dangos bod systemau ar waith i fonitro, asesu a dadansoddi lefel y gofal a'r cymorth sy'n cael ei darparu ac mae angen iddynt fod yn fanylach. Caiff archwiliadau eu cwblhau bob mis, ond mae angen iddynt fod yn fwy cadarn. Ni lwyddodd yr archwiliad amgylcheddol diweddaraf i nodi nad oes cyfyngwyr addas ar rai o'r ffenestri. Mae'r rhain yn feysydd i'w gwella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu erbyn ein harolygiad nesaf.

Mae rheolwr newydd wedi cael ei benodi ers yr arolygiad diwethaf. Cynhaliwyd proses recriwtio yn ddiweddar ac mae'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth wedi lleihau'n sylweddol. Mae'r gwasanaeth yn cynnal y gwiriadau gofynnol wrth recriwtio staff newydd. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn mynd at y rheolwr os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Dywedwyd wrthym "*She's a good one*" ac "e*veryone likes her*". Mae'r rheolwr yn cefnogi'r staff i godi pryderon am y gwasanaeth drwy weithdrefnau chwythu'r chwiban a diogelu. Cafodd y weithdrefn ddiogelu ei thrafod yn y cyfarfod staff diwethaf. Mae polisïau ar waith ac mae'r staff yn gallu cael gafael arnynt. Fodd bynnag, mae angen diweddaru'r polisïau a welsom er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys y canllawiau diweddaraf a'r ddeddfwriaeth gywir. Cafodd hyn ei nodi yn ystod yr arolygiad diwethaf ac nid ymdriniwyd â'r mater yn llawn. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 6 | Rhaid darparu'r gwasanaeth yn unol â'r datganiad o ddiben | Newydd |
| 44 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio mewn perthynas â'r amgylchedd i bobl sy'n byw â dementia ac o ran rhoi dewis rhwng cael bath neu gawod | Newydd |
| 80 | Nid yw'r darparwr wedi cwblhau'r adroddiad sicrhau ansawdd bob chwe mis fel sy'n ofynnol | Heb Gyflawni |
| 12 | Rhaid i'r darparwr sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau ar waith, eu bod yn cael eu hadolygu a'u bod yn berthnasol. | Heb Gyflawni |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/04/2024